

## Rhif 357 Cystadleuaeth Creu Gwefan bl 6 ac iau Unigol neu Grwp

Wrth chwilio am ennillydd, yr oeddwn yn edrych i ddechrau am argraff y dudalen gartref arnaf wrth imi ei gweld am y tro cyntaf, gan obeithio am dudalen drawiadol, gyda hierarchiaeth bendant (dewis ffont, maint ysgrifen, lliw a chynllun) yn denu fy llygad at y wybodaeth yn y drefn gywir, fel bod y prosesu'n rhwydd i'r darllennydd. Wrth lywio fy ffordd drwy wefan pob ymgeisydd, fe chwiliwn am wefan oedd yn syml i'w defnyddio, am wreiddioldeb syniadau ac elfennau technegol difyr i gynnal diddordeb, yn ogystal â digon o gynnwys tecst a llun, a hynny mewn Cymraeg graenus. Cafwyd 4 ymgais dda iawn i law.

Roedd hon yn gystadleuaeth anodd iawn i'w beirniadu gan fod pob gwefan yn rhagori mewn gwahanol agweddau. Roedd golwg gyntaf un wefan yn arbennig o effeithiol yn ei symlrwydd a rhwyddineb y llywio, ond hoffwn fod wedi gweld elfennau bach ychwanegol arni i gynnal diddordeb, ee lle i glicio i weld fideo neu glywed sain. Roedd eraill wedi defnyddio ffilm gefndirol i greu diddordeb, cerddoriaeth i atgyfnerthu, a ffyrdd diddorol o gyflwyno'r wybodaeth. Weithiau byddai'r lluniau cefndir symudol yn gwneud y darllen yn anodd, gan dynnu sylw diangen. Roedd un arall yn llawn o nodweddion diddorol a chlyfar, ee pol piniwn a graff i ddangos effaith y bleidlais, lle i ysgrifennu barn a'i anfon, lincs i youtube a llawer mwy! Yn anffodus roedd argraff gyntaf ddryslyd i'r wefan honno, gyda gwybodaeth bwysig mewn ffont mân tra roedd y dudalen fel rhyw lobsgows. Roedd cynnwys hon yn llawn gwallau ieithyddol ac angen ailddrafftio a chaboli, ond gan y crewr yma y mae'r addewid mwyaf gyda'i syniadau creadigol.

Mae'r wobr gyntaf i'r ymgeisydd sydd wedi creu gwefan sydd fwyaf cyson drwyddi draw, ond mae gan y 3 ymgeisydd arall wir addewid i'r dyfodol, ac mi fwynheais bob un yn fawr.

1. Ysgol y Frenni bl 5 a 6
2. Gwyrddlas y Dderi
3. Jack Gleeson

a chanmoliaeth hefyd i Ysgol y Frenni bl 3 a 4